# <u>Testun Dwyn i gof</u>

## <u>Dyddiadur</u>

**Dydd Mercher, Tachwedd 21ain 1956**

Es i ddim i'r Ysgol heddiw gan fod Mam yn dweud bod eisiau i bob copa walltog ddangos eu gwrthwynebiad i'r cynlluniau gwallgof. Aethon ni, ar y bws cyntaf yn gynnar yn y bore'r holl ffordd i Lerpwl. Dyma'r tro cyntaf i fi fynd tu allan i Gymru! Teimlais yn gyffrous iawn wrth glywed pawb yn trafod a phregethu. Roedd Elwyn, fy ffrind ar y bws arall.

Cyrhaeddon ni strydoedd Lerpwl cyn cinio, a chefais faner i'w chario gyda'r geiriau Saesneg, 'Your homes are safe. Save ours.' Wrth i ni gerdded ar hyd strydoedd llydan y ddinas, roedd rhai o hen wragedd y lle yn ein gwylio gan weiddi a galw enwau arnom. Teimlais yn ofnus iawn. Daliais law fy mam yn dynn wrth i gannoedd ohonom gerdded yn araf a threfnus tuag at neuadd y ddinas. Doeddwn i erioed wedi gweld cymaint o bobl.

Ar ôl cyrraedd, dechreuodd pawb ganu emynau Cymraeg a safodd Gwynfor Evans (dyn pwysig yn ôl mam) o flaen y dorf a'n hannerch ni. Cynhyrfodd pawb, ac ar ôl iddo orffen, dechreuodd y cymeradwyo.

Wedyn, aeth dad a nifer o'r dynion i mewn i'r siambr wrth i ni aros tu allan yn yr oerfel. Dechreuais ddiflasu.

Ymhen hir a hwyr, daeth dynion y cwm allan, â'u pen yn eu plu. Synhwyrais fod rhywbeth o'i le, ond nid dyma'r amser i ofyn cwestiynau.